

PRIFFYRDD, CYMRU

2011 Rhif 27

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (YSGOL GYNRADD PILLGWENLLI, CASNEWYDD) 2011

Gwnaed 27 Ebrill 2011

Yn Dod i Rym 3 Mai 2011

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1990”), a phob pŵer galluogi arall (2):

1. Yn y Gorchymyn hwn: -

ystyr “y Cyngor” (*“the Council”*) yw Cyngor Dinas Casnewydd;

ystyr “y datblygwr” (*“the developer”*) yw'r person sy'n cyflawni'r datblygiad y rhoddwyd y caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod ar ei gyfer;

ystyr “y plan a adneuwyd” (*“the deposited plan”*) yw'r map â'r teitl “Gorchymyn Cau Priffyrdd (Ysgol Gynradd Pillgwenlli, Casnewydd) 2011” sydd yn mynd gyda'r Gorchymyn hwn.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru'n awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan wedi'i adneuo, gan eu bod yn argyhoeddedig fod cau'r briffordd yn angenrheidiol er mwyn galluogi i'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 gael ei gyflawni yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 9 Rhagfyr 2010 o dan gyfeirnod 10/1051.

3. Ni chaniateir cau'r darn o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn nes:

(a) bod y datblygwr wedi darparu, i foddhad rhesymol y Cyngor, gynlluniau sy'n dangos pa ddulliau sydd i'w defnyddio i gau'r darn o briffordd;

(b) bod y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi cychwyn, a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o'r angen i gau'r briffordd er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd yn ei flaen; ac

(c) bod y Cyngor wedi cadarnhau'n ysgrifenedig i'r datblygwr fod darpariaethau cymalau (a) a (b) o'r erthygl hon wedi eu cyflawni a'i fod wedi ei fodloni o ran y materion a nodir yng nghymalau (a) a (b) o'r erthygl hon.

4. Lle mae unrhyw gyfarpar sy'n eiddo i ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus yn bodoli o dan, uwchben, yn, ar, ar hyd neu ar draws y briffordd honno, yn union cyn i'r darn o briffordd gael ei gau yn unol â'r Gorchymyn hwn, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990) bydd yr ymgwymerwyr neu ddarparwyr yn parhau i feddu ar yr un hawliau mewn perthynas â'r gyfarpar ag yr oedd ganddynt cyn y cau.

5. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi ei gychwyn o fewn y cyfnod perthnasol a nodir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel hyd y caniatâd cynllunio, neu os dirymir y caniatâd cyn diwedd y cyfryw gyfnod, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan fo'r caniatâd cynllunio'n darford.

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar y dyddiad y bydd hysbysiad i'r perwyl fod y Gorchymyn wedi ei wneud yn cael ei gyhoeddi gyntaf yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990. Enw'r Gorchymyn hwn yw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Ysgol Gynradd Pillgwenlli, Casnewydd) 2011".

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Ebrill 2011

G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1990 c.8.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, Erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ATODLEN 1

(Mae'r holl fesuriadau'n rhai bras)

Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w gau o dan y Gorchymyn hwn yn Ysgol Gynradd Pillgwenlli, yn Ninas a Sir Casnewydd

Darn afreolaidd o briffordd, sy'n mesur 10 metr o hyd wrth 3.5 metr o led, gyda chyfanswm arwynebedd o 37 metr sgwâr, ac sy'n ffurfio rhan o'r fynedfa orllewinol i'r ysgol, oddi ar Chapel Crescent, fel y dangosir â llinellau sebra ar y map wedi'i adneuo.

ATODLEN 2

Y Datblygiad Arfaethedig

Adeiladu estyniad er mwyn cysylltu adeilad annibynnol â phrif adeilad yr ysgol yn Ysgol Gynradd Pillgwenlli, Casnewydd; ymestyn ac ailgyflunio maes parcio; a newid y defnydd o dir er mwyn ei ymgorffori yn nhir yr ysgol at ddibenion man chwarae.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (YSGOL GYNRADD PILLGWENLLI, CASNEWYDD) 2011

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud yr awdurdodir cau'r briffordd. Bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol os yw'r caniatâd cynllunio yn dod i ben neu yn cael ei ddirymu.

Yn ystod y 6 wythnos o 3 Mai 2011, gellir archwilio, yn ddi-dâl, gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adnewyd, yn swyddfeydd Cyngor Dinas Casnewydd,

Ymgynghoriaeth Beirianeg, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR, yn ystod oriau swyddfa arferol, neu fe ellir eu cael yn ddi-dâl o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu cyfeirnod CZ510-5-11-qA904234 Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Os oes unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau sydd wedi eu cynnwys ynddo, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. fod buddiannau'r person wedi eu niweidio'n sylweddol gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw wneud cais i'r Uchel Lys, o fewn 6 wythnos i 3 Mai 2011, am i'r Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir ynddo, gael ei atal neu ei wrthdroi.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gsi.gov.uk (Dewiswch: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/Trafnidiaeth, Cymru/ Gorchymynion Cau TCPA/ 2011.)

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, TPG3, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL

Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3
Llywodraeth Cynulliad Cymru

ATODLEN 1

(mae'r holl fesuriadau'n rhai bras)

Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w gau o dan y Gorchymyn hwn yn Ysgol Gynradd Pillgwenlli, yn Ninas a Sir Casnewydd

Darn afreolaidd o briffordd, sy'n mesur 10 metr o hyd wrth 3.5 metr o led, gyda chyfanswm arwynebedd o 37 metr sgwâr, ac sy'n ffurfio rhan o'r fynedfa orllewinol i'r ysgol, oddi ar Chapel Crescent, fel y dangosir â llinellau sebra ar y map wedi'i adneuo.

ATODLEN 2

Y Datblygiad Arfaethedig

Adeiladu estyniad er mwyn cysylltu adeilad annibynnol â phrif adeilad yr ysgol ar gyfer darparu cyfleusterau i staff; ymestyn ac ailgyflunio maes parcio; a newid y defnydd o dir er mwyn ei ymgorffori yn nhir yr ysgol at ddibenion man chwarae yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd ar 9 Rhagfyr 2011 o dan gyfeirnod 10/1051.